General Optical Council

# Adroddiad Blynyddol y Cyngor Optegol Cyffredinol i Gomisiynydd y Gymraeg 2025-26

## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 1
Cefndir ........ 2
Ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg ........ 2
Safonau cyflenwi gwasanaethau ........ 3
Dysgu a gwneud penderfyniadau ........ 4
Safonau gweithredol ........ 5
Ymgysylltu â datblygiadau'r Gymraeg ........ 5
Cydymffurfiaeth a chwynion ........ 6
Edrych ymlaen ........ 6
Casgliadau ........ 6


## Cyflwyniad

Eleni yw ein trydedd flwyddyn o weithredu o dan y Safonau Iaith presennol. Mae'r Safonau wedi ennill eu plwyf o ran sut rydyn ni'n gweithio fel rheoleiddiwr. Rydyn ni'n eu gweld nid yn unig fel dyletswydd statudol, ond hefyd fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i degwch, i gynhwysiant ac i drin pobl â pharch.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ein pwyslais oedd cryfhau hyder a chysondeb yn y ffordd rydyn ni'n cymhwyso'r Safonau. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi cydweithwyr ac arweinwyr i wneud penderfyniadau gwybodus, i ystyried effeithiau ar y Gymraeg yn gynharach, ac i barhau i wella mynediad at wasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Gwelwyd datblygiadau ehangach yn ymwneud â'r Gymraeg eleni hefyd, gan gynnwys adroddiadau thematig a chanllawiau diwygiedig Comisiynydd y Gymraeg. Rhoddodd y rhain gyfleoedd defnyddiol i feddwl am ein ffordd o weithio ac i nodi meysydd lle gallwn barhau i gryfhau ein gwaith.

Diolch i ymrwymiad cydweithwyr ar draws y sefydliad, cymorth y Fforwm Rheoleiddwyr ar y Cyd Safonau'r Gymraeg ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a Chomisiynydd y Gymraeg, y mae ein cynnydd wedi'i wneud. Rydyn ni'n cydnabod bod hyrwyddo'r Gymraeg yn waith parhaus, ac rydyn ni'n parhau i fod wedi ymrwymo i wella mynediad a gwelededd o flwyddyn i flwyddyn.

Gellir dod o hyd i [adroddiadau blynyddol blaenorol] ynglŷn â'r Gymraeg yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan.

## Cefndir

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn rheoleiddio gwasanaethau gofal llygaid ar draws y DU. Ein cenhadaeth yw diogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau uchel ym maes gwasanaethau gofal llygaid. Rydyn ni'n gwneud hynny drwy'r ffyrdd canlynol:

- Gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad.
- Cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru.
- Cynnal cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforaethol sy'n addas i gynnal busnes fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi.
- Ymchwilio a gweithredu lle gallai addasrwydd cofrestrwyr i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes fod wedi'i amharu.

Mae cofrestrwyr yn cynnwys optometryddion, optegwyr cyflenwi, optometryddion ac optegwyr cyflenwi dan hyfforddiant a rhai busnesau. Rydyn ni'n parhau i gymeradwyo Prifysgol Caerdydd fel unig ddarparwr addysg cymeradwy y Cyngor Optegol Cyffredinol yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyswllt uniongyrchol i ni â myfyrwyr a chofrestrwyr yng Nghymru ac yn tanlinellu pam mae sicrhau mynediad teg at wasanaethau Cymraeg yn bwysig.

Creodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Safonau'r Gymraeg a rôl Comisiynydd y Gymraeg. Ar gyfer y Cyngor Optegol Cyffredinol, mae'r Safonau'n golygu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod pobl ar draws Cymru yn cael cyfleoedd ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â ni.

Ers cydymffurfio â'r Safonau, rydyn ni wedi parhau i adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd yn ystod y broses weithredu. Mae ystyriaethau'r Gymraeg bellach yn rhan o'n gwaith bob dydd, o gyfieithu dogfennau i sicrhau y gellir cael mynediad at ein gwefan, ein gwasanaethau ffôn a'n gwrandawiadau yn Gymraeg pan fo angen.

Mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfiaeth o ddydd i ddydd yn parhau yn nwylo ein Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Gymraeg yn flaenoriaeth reoleiddiol a chynhwysiant.

## Ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg

Rydyn ni wedi parhau i fabwysiadu dull ymarferol a chynhwysol o ymgorffori Safonau'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

Mae hyn wedi cynnwys:

- Parhau i gynnwys ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg o fewn yr holl sesiynau cynefino i newydd-ddyfodiaid.
- Cynnal canllawiau ac adnoddau i gydweithwyr drwy ein mewnrwyd fewnol.

- Gweithio'n gydweithredol drwy Fforwm Rheoleiddwyr ar y Cyd Safonau'r Gymraeg.
- Sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg yn parhau'n rhan o'n prosesau Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Cefnogi arweinwyr a rheolwyr i ddeall eu cyfrifoldebau drwy sesiynau ymwybyddiaeth a gwneud penderfyniadau wedi'u targedu.
- Adolygu canllawiau, gohebiaeth ac adroddiadau thematig a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Drwy gydol y flwyddyn, gofynnodd cydweithwyr am gyngor ar gymhwyso'r Safonau ar draws ystod o ffrydiau gwaith. Helpodd hyn i sicrhau bod penderfyniadau'n gyson, yn gymesur ac yn cyd-fynd â'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys ystyried gofynion cyhoeddi, gwasanaethau digidol, cyfathrebu, dogfennau llywodraethu a datblygu polisïau.

## Safonau cyflenwi gwasanaethau

Rydyn ni wedi parhau i gryfhau'r ffyrdd y gall pobl ddefnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg. Yn ystod 2025-26:

- Parhaodd ein system ffôn awtomataidd a'n gwefan i fod ar gael yn Gymraeg.
- Parhaodd cyfieithiadau Cymraeg o wybodaeth allweddol i'r cyhoedd i gael eu darparu.
- Fe wnaethom gynnal trefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd a gwasanaethau cyfieithu yn Gymraeg pe bai eu hangen.
- Parhaodd swyddogaethau'r Gymraeg i fod ar gael drwy ein platfform MyGOC
- Parhaodd cynnwys y we i fod ar gael yn Gymraeg drwy ein gwefan, gan gefnogi mynediad at wybodaeth yn Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd cydweithwyr sut mae gofynion y Gymraeg yn berthnasol i'n gwasanaethau digidol. Gan adeiladu ar fynediad i'r Gymraeg o fewn MyGOC, adolygodd cydweithwyr sut mae gofynion y Gymraeg yn berthnasol i ddeunydd cyfathrebu cofrestrwyr, ffurflenni ar-lein a chyfathrebu awtomataidd. Helpodd hyn i sicrhau y gall defnyddwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau o'r un ansawdd a hygyrchedd i'r rhai sydd ar gael yn Saesneg.

Rydyn ni hefyd yn parhau i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg drwy we-dudalennau pwrpasol a gwybodaeth glir sydd wedi'i chynnal am sut gall defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at gymorth, gohebiaeth, cyfarfodydd a gwasanaethau eraill yn Gymraeg.

Drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni'n parhau i ddefnyddio dull cymesur wrth benderfynu a ddylid cyfieithu dogfennau adeg eu cyhoeddi. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gynulleidfa darged, y pwnc, yr effaith bosib ar siaradwyr Cymraeg, a'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Lle nad oedd dogfen wedi'i chyfieithu'n rhagweithiol, parhaodd trefniadau clir ar waith i ddarparu fersiwn Gymraeg ar gais.

Yn y Cyngor Optegol Cyffredinol, rydyn ni eisiau i bobl gael dewis go iawn yn y ffordd maen nhw'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae hynny'n golygu gallu ymgysylltu â ni'n Gymraeg lle maen nhw'n dymuno gwneud hynny, boed drwy ymgynghoriadau, gohebiaeth, cyfarfodydd neu fynediad at ddeunyddiau wedi'u cyfieithu.

## Dysgu a gwneud penderfyniadau

Un o'r meysydd y canolbwyntiwyd arno yn ystod 2025-26 oedd helpu cydweithwyr i deimlo'n fwy hyderus wrth gymhwyso Safonau'r Gymraeg yn ymarferol.

Nid yw cydymffurfio wastad yn fater o gyfieithu pob dogfen neu gymryd yr un ffordd o weithio ym mhob sefyllfa. Yn aml mae'n gofyn am ystyried y gynulleidfa, effaith a chymesuredd, tra'n sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg dan anfantais.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyflwyno sesiwn bwrpasol ar Safonau'r Gymraeg i uwch arweinwyr. Canolbwyntiodd y sesiwn ar wneud penderfyniadau ymarferol ac anogodd gydweithwyr i ystyried:

- A allai siaradwr Cymraeg fod dan anfantais.
- A ystyriwyd goblygiadau'r Gymraeg yn ddigon cynnar.
- A ellid egluro a chyfiawnhau penderfyniadau'n glir.

Fe wnaethom hefyd gefnogi cydweithwyr gydag ymholiadau ymarferol drwy gydol y flwyddyn, gan helpu timau i gymhwyso'r Safonau yn gyson ar draws ystod o waith. Roedd hyn yn cynnwys cyngor ar ofynion cyfieithu, gwasanaethau digidol a chyfathrebu.

Fe wnaethom hefyd ystyried sut mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i newidiadau yn ein llwybr cofrestru tramor yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith hwn, adolygodd cydweithwyr sut gallai gofynion y Gymraeg fod yn berthnasol i brosesau ymgeisio a chyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr tramor. Roedd hyn yn cynnwys ystyried yr effaith bosib ar ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg, adolygu'r trefniadau cyfredol a nodi cynlluniau wrth gefn priodol pe bai cais i ddefnyddio'r Gymraeg yn codi. Er nad oes unrhyw geisiadau am ddarpariaeth Gymraeg wedi'u derbyn hyd yn hyn drwy'r llwybr hwn, rhoddodd y drafodaeth gyfle defnyddiol i ystyried goblygiadau'r Gymraeg yn gynnar ac i sicrhau bod dull clir a chymesur ar waith yn y dyfodol. Mae hyn wedi cryfhau ein gallu i wneud penderfyniadau teg, tryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth gynnal llwybrau clir ar gyfer mynediad at y Gymraeg lle bo angen.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd arweinwyr eu briffio hefyd ar ddatblygiadau i ffordd Comisiynydd y Gymraeg o reoleiddio, gan gynnwys cyflwyno Polisi Gorfodaeth diwygiedig. Rhoddodd hyn gyfle i atgyfnerthu disgwyliadau o ran dogfennu penderfyniadau, gan ddangos cymesuredd yn benodol.

## Safonau gweithredol

Mae ein safonau gweithredol yn canolbwyntio ar ymgorffori’r Gymraeg i'r ffordd rydyn ni’n gweithio fel sefydliad. Mae hyn yn golygu cefnogi cydweithwyr i ddatblygu sgiliau, i fonitro defnydd iaith ar draws ein gweithlu ac i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried wrth recriwtio.

Yn ystod 2025-26 fe wnaethom y canlynol:

- Parhau i fonitro gallu a defnydd o'r Gymraeg drwy fonitro cydraddoldeb y gweithlu.
- Asesu gofynion y Gymraeg fel rhan o brosesau recriwtio.
- Parhau i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg drwy brosesau cynefino a chyfleoedd dysgu parhaus.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ofyn i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â monitro'r gweithlu a gofynion adrodd blynyddol. Helpodd hyn i sicrhau bod ein ffordd o weithio yn parhau i fod yn gyson â'r Safonau a rhoddodd fwy o eglurder o ran ein rhwymedigaethau adrodd.

Fe wnaethon ni hefyd fanteisio ar y cyfle i adolygu ein trefniadau recriwtio a'r ffordd y mae gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried mewn swyddi yn dilyn gohebiaeth wrth Gomisiynydd y Gymraeg. Er ein bod yn rheoleiddiwr ar gyfer y DU gyfan ac nad oes gennym swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar hyn o bryd, fe wnaeth y broses o adolygu ein trefniadau ein helpu i sicrhau bod ein ffordd o weithio yn parhau i fod yn gymesur, yn briodol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Safonau.

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau sy’n berthnasol i safonau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn y dyfodol.

## Ymgysylltu â datblygiadau’r Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom adolygu adroddiadau thematig, canllawiau a gohebiaeth a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Er bod nifer o'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at gyrff cyhoeddus mwy o faint sy'n gweithredu'n gyfan gwbl yng Nghymru, serch hynny, bu’n gyfle defnyddiol i fyfyrio. Yn benodol, roeddent yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwelededd, hygyrchedd a chynllunio'r gweithlu wrth gefnogi'r iaith Gymraeg.

Fe wnaethom hefyd ystyried y Polisi Gorfodaeth diwygiedig a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd. Mae'r polisi'n rhoi pwyslais cryf ar gydweithio, cefnogaeth a gwelliant parhaus, gan dynnu sylw hefyd at bwysigrwydd sefydliadau'n gallu dangos sut mae ystyriaethau'r Gymraeg wedi llywio eu penderfyniadau.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom ystyried datblygiadau sy'n deillio o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw oblygiadau ar gyfer ein ffordd o weithio yn y dyfodol.

Mae'r datblygiadau hyn wedi helpu i siapio ein ffordd o feddwl a byddant yn parhau i lywio ein gwaith yn y dyfodol.

## Cydymffurfiaeth a chwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2025-26. Er bod hyn yn awgrymu bod ein trefniadau'n gweithio'n effeithiol, rydyn ni'n cydnabod nad yw absenoldeb cwynion yn unig yn dangos cydymffurfiaeth. Felly rydyn ni'n parhau i fonitro ein trefniadau'n rhagweithiol ac yn cynnig llwybrau clir ar gyfer adborth a chwynion yn Gymraeg.

## Edrych ymlaen

Ein pwyslais ar gyfer 2026-27 fydd:

- Parhau i ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau fel sefydliad.
- Adolygu cynnwys a phrofiadau defnyddwyr yn Gymraeg ar draws ein gwasanaethau digidol.
- Monitro datblygiadau sy'n deillio o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ac unrhyw newidiadau cysylltiedig i ddisgwyliadau o dan y Safonau.
- Parhau i ymgysylltu â Fforwm Rheoleiddwyr ar y Cyd Safonau'r Gymraeg.
- Parhau i adolygu trefniadau ein gweithlu a'n trefniadau recriwtio yng ngoleuni canllawiau sy'n dod i'r amlwg gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Parhau i fonitro datblygiadau o ran dull rheoleiddio a gorfodaeth y Comisiynydd.
- Archwilio cyfleoedd i gasglu adborth wrth randdeiliaid sy'n siarad Cymraeg o ran eu profiad o ymgysylltu â'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

## Casgliadau

Rydyn ni'n falch o'r cynnydd a wnaethom yn ystod ein trydedd flwyddyn o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Eleni, rydyn ni'n canolbwyntio llai ar weithredu a mwy ar ymgorffori'r Safonau i benderfyniadau bob dydd. Rydyn ni'n parhau i gryfhau gwasanaethau, i gefnogi cydweithwyr ac arweinwyr i ddeall eu cyfrifoldebau, ac i fyfyrio ar ddisgwyliadau sy'n dod i'r amlwg gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth a diwylliant Cymru, a'n rôl ni fel rheoleiddiwr ar draws y DU yw sicrhau ei bod yn cael ei thrin gyda thegwch, parch a chydraddoldeb.

Rydyn ni'n ystyried Safonau'r Gymraeg nid yn unig fel dyletswydd gyfreithiol, ond fel cyfle i feithrin ymddiriedaeth, i hyrwyddo cynhwysiant ac i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gael mynediad at ein gwasanaethau gyda hyder. Rydyn ni'n parhau i fod wedi ymrwymo i ddysgu, i wella ac i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.